ALCOHOL CHANGE UK

# Dod â phroblem?



Gwerthu alcohol ar-lein a'i ddosbarthu – pa mor gadarn yw'r trefniadau ar gyfer **diogelu plant** ac **oedolion bregus** rhag niwed alcohol?

# Crynodeb


Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mwy o bobl nag erioed yn prynu alcohol ar-lein yn y wlad hon, oddi wrth amrywiaeth gynyddol o werthwyr, a'r rheini yn aml yn addo dod â diodydd i garreg eich drws ymhen munudau.

Er hynny, wrth i'r farchnad barhau i ehangu, mae ymchwil a gomisiynwyd gan Alcohol Change UK wedi codi cwestiynau am ba mor gadarn yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion bregus rhag niwed alcohol. Yn benodol:

- Comisiynodd Alcohol Change UK ymchwilwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam i edrych ar systemau dilysu oedran ar wefannau gwerthwyr. Cafodd yr ymchwilwyr wendidau mawr, gan ddod i'r casgliad fod dulliau gwirio oedran ar-lein yn "aneffeithiol i raddau helaeth"
- Profwyd amrywiaeth o werthwyr sy'n gwerthu alcohol ar-lein trwy gyfres o brofion prynu a gomisiynwyd gan Alcohol Change UK. Mewn 72% o achosion lle'r oedd alcohol wedi'i archebu i gyrraedd o fewn dwy awr, cafodd ei drosglwyddo i brynwyr 18 a 19 mlwydd oed heb geisio tystiolaeth o'u hoedran, a hynny'n groes i bolisïau'r gwerthwyr eu hunain ynglŷn â dosbarthu eitemau â chyfyngiad oedran arnynt i'r rhai a allai fod dan oed
- Datgelodd ymchwil gan Cogent Research ar ran Alcohol Change UK fod dryswch ymhlith gyrwyr dosbarthu am bolisïau gwerthwyr ar ddilysu oedran, a bod diffyg hyfforddiant effeithiol ar wirio oedran. Roedd ansicrwydd tebyg ymhlith gyrrwyr ynglŷn â'r rheolau am basio diodydd i gwsmeriaid meddw.

Mae'r ymchwil hon i gyd yn awgrymu nad yw cwmnïau sy'n gwerthu alcohol ar-lein yn gwneud digon o bell ffordd i sicrhau nad yw alcohol yn cael ei drosglwyddo i'r rhai dan oed, neu i oedolion meddw, ar garreg y drws. Mae angen gwelliant, a hynny'n ddiymdroi. Yn ein barn ni, mae angen mynd ati ar hyd sawl trywydd, gan gynnwys:

- Dylai gwerthwyr sefydlu system hyfforddiant a chefnogaeth gadarn i'w gyrwyr, er mwyn eu galluogi i wrthod yn effeithiol ac yn gyson drosglwyddo alcohol i unrhyw un dan oed neu sydd i'w weld yn amlwg feddw
- Dylai heddluoedd a thimau safonau masnach ledled Cymru a Lloegr gynnal profion prynu yn rheolaidd, gyda phrynwyr dan 18 mlwydd oed, er mwyn profi i ba raddau mae gwerthwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith ac â'u polisïau eu hunain i beidio â gwerthu alcohol na'i gyflenwi i'r rhai dan oed. Dylid ystyried hefyd y ffordd orau i brofi a yw alcohol yn cael ei drosglwyddo i bobl sy'n feddw
- Dylid cydnabod yr angen am ragor o ymchwil er mwyn deall yn well i ba raddau mae pobl dan oed yn cael gafael ar alcohol drwy werthwyr ar-lein
- Dylid edrych eto ar ddeddfwriaeth drwyddedu Cymru a Lloegr, a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi, er mwyn sicrhau ei bod yn eglur i bawb beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth werthu alcohol ar-lein a'i ddosbarthu i gartrefi pobl.




# Cefndir: twf siopa ar-lein

Daethom yn genedl o brynwyr ar-lein. Fel cyfran o holl werthiannau'r sector manwerthu, mae'r arian sy'n cael ei wario ar-lein gan gwsmeriaid Prydain wedi treblu a rhagor yn ystod y degawd diwethaf, o gyfartaledd misol o tua 5% yn 2008 i bron i 18% yn 2018.[1]

Mae'r pandemig COVID-19 a'r rheolau er mwyn ymdrin ag ef – gan gynnwys cyfyngiadau symud, rheolau pellter cymdeithasol, a'r gofyniad i wisgo masgiau mewn siopau – wedi ysgogi mwy fyth ohonom i siopa ar-lein, i'r fath raddau nes bod gwerthiant ar-lein yn cynrychioli mwy na thraean (33.9%) o gyfanswm gwariant manwerthu Prydain yn 2020.[2]

**Ffigur 1: Mynegai gwerthiant rhyngrwyd Prydain Fawr: gwerth gwerthiannau rhyngrwyd wedi'u haddasu'n dymhorol fel cyfran o'r holl fanwerthu[3]**




Gwerthwyr dillad ac esgidiau yw prif gyrchfan cwsmeriaid ar-lein o hyd;[4] ond mae siopa ar-lein am eitemau eraill, yn enwedig bwydydd, wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Unwaith eto, rhoddodd y pandemig ragor o sbardun i'r duedd hon. Nododd ymchwil a gyhoeddwyd gan un o brif archfarchnadoedd Prydain ym mis Awst 2020 fod 77% o bobl wedi gwneud rhywfaint o leiaf o'u siopa bwyd ar-lein, o gymharu â 61% y flwyddyn flaenorol.[5] Roedd y twf sydyn hwn yn fwyaf amlwg ymhlith pobl dros 55 mlwydd oed, ac mae llawer o'r rhain yn dweud y byddant yn dal i wneud rhywfaint o'u siopa bwyd ar-lein ar ôl y pandemig.[6]

Mae cwmnïau cyflenwi bwyd a diod ar-lein wedi gweld cynnydd enfawr yn y galw am eu gwasanaethau. Cwmni Just Eat a welodd y twf mwyaf, ac ym mis Rhagfyr 2020, ymwelodd bron i 10 miliwn o bobl â'u gwefan, ac roedd archebion ym Mhrydain 58% yn uwch yn chwarter olaf 2020 nag yn yr un cyfnod yn 2019.[7]

> "Cyflymodd e-fasnach ym mhobman yn 2020, ond roedd y twf diodydd alcoholaidd yn amlwg iawn."
>
> Ivan Menezes, Prif Weithredwr Diageo, 2021[8]

Cyrhaeddodd gwerthiant alcohol ar-lein ei ffigurau uchaf erioed yn 2020, gyda gwerth e-fasnach alcohol yn cynyddu 42% mewn blwyddyn.[9] Er hynny, mae ein syched am brynu alcohol ar-lein yn henach na'r pandemig: yn 2017, roedd mwy nag un o bump (21%) o gwsmeriaid y Deyrnas Unedig wedi prynu alcohol ar-lein, o gymharu â chyfartaledd byd-eang o 8%.[10]

Yn wir, er bod bywyd y wlad yn graddol ddychwelyd i batrwm mwy 'normal', mae disgwyl y bydd gwerthu alcohol ar-lein yn dal i gyflymu'n rhyngwladol ar draws 20 o farchnadoedd allweddol, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, a rhagwelir y bydd gwerth e-fasnach alcohol yn cynyddu 74% rhwng 2020 a 2024.

> "Roedd rhaid i bobl archebu alcohol ar-lein [yn ystod y cyfnod clo], ac nawr maen nhw'n dechrau sylweddoli mor gyfleus yw e."
>
> Sara Goucher, Cyfarwyddwr E-fasnach Molson Coors, 2021[11]

# Pwy sy'n gwerthu alcohol ar-lein?

Wrth i'r duedd tuag at brynu alcohol ar-lein gynyddu, cynyddu hefyd mae'r amrywiaeth o werthwyr sy'n dosbarthu bwydydd a diodydd sydd wedi'u harchebu ar-lein, fel y gwelir o **Dabl 1** isod. Nid siopau bwyd traddodiadol yw'r unig lefydd yr awn ni ar-lein am hanfodion bywyd mwyach, yn enwedig ar gyfer prynu pethau bach ychwanegol yn ystod yr wythnos neu brynu ar fympwy.

At hynny, mae'r dyddiau pan fyddai rhaid i ni aros sawl diwrnod am ein harcheb yn prysur ddiflannu; yn hytrach, gall y pethau rydym yn eu harchebu drwy wefan neu app fod wrth ein drws o fewn munudau.

### Tabl 1: Yr amrywiaeth gynyddol o werthwyr ar-lein

| Categorïau gwerthwyr alcohol ar-lein | Enghreifftiau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Archfarchnadoedd** | Tesco, Sainsbury's, Waitrose, Asda, Morrisons, Co-op | Siopau traddodiadol, ond roeddynt hefyd ymhlith y cyntaf i werthu alcohol ar-lein yn y wlad hon |
| **Siopau bwyd ar-lein** | Ocado, Amazon Fresh | Mae'r rhain yn bodoli ar-lein yn unig, er bod Amazon hefyd yn treialu siopau ar lawr gwlad heb ddesgiau talu |
| **Gwerthwyr ar alw** | Beelivery, Jiffy, Gorillas, GoPuff, Fancy, Getir, Zapp | Gwerthwyr sy'n cynnig danfon nwyddau, gan gynnwys alcohol, o fewn cyn lleied â 10 munud ar ôl eu harchebu trwy app. Daw'r nwyddau o 'siopau tywyll' (storfeydd bach lleol) neu oddi wrth gyflenwyr lleol |
| **Gwasanaethau cyflenwi bwyd ar-lein** | Just Eat, Uber Eats, Deliveroo | Cwmnïau ar-lein sy'n gweithredu fel cyfryngwyr rhwng gwerthwyr bwyd a diod a'u chwsmeriaid. Dosbarthu ar ran bwytai byddant yn bennaf, ond hefyd archfarchnadoedd a siopau lleol. Archebir trwy app |
| **Siopau lleol** | Premier, Nisa, Spar, Londis | Ddim yn cynnig siopa ar-lein, ond yn defnyddio platfformau fel Appy Shop a Snappy Shopper er mwyn dosbarthu eu cynnyrch |
| **Gwerthwyr arbenigol** | Naked Wines, Virgin Wines, BeerHawk, Honestbrew, Brewdog Beer Club | Cwmnïau sy'n gwerthu i danysgrifwyr, ar-lein yn bennaf, ac fel arfer yn cynnig swm penodol o ddiodydd bob mis |

Er bod y categorïau yn **Nhabl 1** uchod i'w gweld endidau ar wahân, y gwir yw bod y ffiniau rhyngddynt yn aml yn aneglur.

Er enghraifft, er mai siopau ar lawr gwlad yw craidd busnes yr archfarchnadoedd, maent hefyd wedi deall pwysigrwydd dosbarthu nwyddau, gan gynnwys alcohol, yn gyflym i gwsmeriaid sy'n archebu ar-lein. Mae Tesco, er enghraifft, wedi ymuno'n ddiweddar â'r grŵp danfon cyflym Gorillas i dreialu danfon nwyddau o'u siopau at gwsmeriaid ymhen 10 munud, yn ogystal â lansio eu gwasanaeth danfon buan eu hun, Whoosh, o'u siopau bach yn 2021.[12]

Mae Uber Eats, Just Eat a Deliveroo i gyd mewn partneriaethau gydag archfarchnadoedd mawr Prydain,[13] a gall cwsmeriaid Co-op a Morrisons siopa am holl fwydydd a diodydd y ddwy siop ar Amazon, a phopeth yn eu cyrraedd am ddim yr un diwrnod trwy Amazon Prime.[14]

> "Buodd symudiad mawr oddi wrth lawr gwlad at ar-lein yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf... Nawr, mae ail symudiad oddi wrth ar-lein at ar-alw."
>
> Kristof Van Beveren, cyd-sylfaenydd Weezy (Jiffy erbyn hyn), 2021[15]

## Dosbarthu diodydd

Mae gwerthwyr yn defnyddio sawl dull i ddosbarthu archebion i'r cwsmer: cyflogi eu staff eu hunain, defnyddio gyrwyr hunan-gyflogedig, neu ddefnyddio gweithwyr cwmni arall.

Bydd pob un ohonom yn gyfarwydd â faniau'r archfarchnadoedd, gyda gyrwyr mewn lifrai, yn dod â bwydydd a diodydd i gartrefi pobl. Yn y fath achosion, mae'r gyrwyr yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr archfarchnad. Eithriad i'r drefn hon yw'r adegau pan fydd archfarchnad yn cynnig gwasanaeth buan trwy gwmni cludo arall: er enghraifft, Stuart Delivery Limited (rhan o DPD) sy'n gweithredu gwasanaeth Whoosh Tesco,[16] ac maent hefyd yn dosbarthu ar ran Ocado a Brewdog.[17]

Ar y llaw arall, mae gwerthwyr eraill fel Amazon Flex yn defnyddio gyrwyr hunan-gyflogedig, ac mae nifer o werthwyr ar-alw yn wneud yr un peth. Gall y gyrwyr hyn "amrywio o fyfyrwyr, gyrwyr Uber, a gyrwyr proffesiynol, i'r rhai sydd ag awydd ennill ychydig o arian ychwanegol".[18] Mae rhai gwerthwyr ar-alw eraill wedi dewis cyflogi casglwyr a beicwyr trwy gontract llawn-amser neu ran-amser, yn hytrach na defnyddio gweithwyr llaw-rydd.

Ar yr un pryd, mae gwerthwyr arbenigol fel Beerhawk[19] a Virgin Wines[20] yn defnyddio cwmnïau cludo fel Yodel, DHL, Hermes a'r Post Brenhinol.

## Dim ond i oedolion

O'r holl werthwyr alcohol ar-lein y buom yn edrych arnynt, roedd gan bob un bolisi ysgrifenedig ar eu gwefan yn dweud bod rhaid i chi fod yn 18 mlwydd oed o leiaf i ddefnyddio eu gwasanaethau a phrynu nwyddau i'w danfon neu'u casglu.

Mae polisïau o'r fath hefyd yn nodi fel arfer y bydd rhaid profi'ch oedran ar garreg y drws wrth dderbyn alcohol os ydych chi i'ch gweld yn ifancach na 18 oed. Mae tua hanner y gwerthwyr rydym wedi edrych arnynt yn gweithredu polisi Challenge 25, gan ofyn i unrhyw un sydd i'w weld dan 25 oed brofi ei oedran (fel arfer trwy ddangos trwydded yrru neu basbort) ac yn gwrthod trosglwyddo'r archeb os nad oes tystiolaeth o'r fath. Gweler **Atodiad 1** isod am ddetholiad o bolisïau nodweddiadol gwerthwyr.

## Osgoi profi'ch oed ar-lein


Yn 2013, cyhoeddodd elusen ragflaenol Alcohol Change UK, Alcohol Concern, yr adroddiad *Ar garreg eich drws*,[21] oedd yn edrych ar effeithiolrwydd trefniadau dilysu oedran ar wefannau siopau bwyd. Gwelwyd mai rhwystr gwan yw'r rhain i bobl dan 18 oed archebu alcohol, gan ddibynnu i gryn raddau ar onestrwydd y cwsmer wrth gadarnhau ei oedran.

Yn 2019, comisiynodd Alcohol Change UK Brifysgol Glyndŵr Wrecsam i edrych eto ar y mater hwn, er mwyn gweld a fu gwelliannau yn y cyfamser. Roedd eu hadroddiad yn amlygu gwendidau mawr, a daethant i'r casgliad bod dulliau dilysu oedran cyfredol yn "aneffeithiol i raddau helaeth".[22]

Cadarnhaodd yr adroddiad fod llawer o werthwyr yn dibynnu ar onestrwydd prynwyr neu ar ddulliau dilysu eraill gweddol rwydd eu hosgoi. Mae profion 'onestrwydd' yn cynnwys naill ai datganiadau i'w cadarnhau, lle dangosir datganiad am oedran i'r cwsmer, naill ai ar y tudalen neu mewn ffenestr fach, ac mae angen ticio bod y datganiad yn wir; neu banel bach lle mae gofyn i'r cwsmer deipio ei ddyddiad geni. Yn ogystal, mae rhai gwerthwyr yn mynnu taliad drwy gerdyn credyd er mwyn profi bod y sawl sy'n talu dros 18 mlwydd oed. (O dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974, ni chaniateir i bobl dan 18 mlwydd oed ddal cerdyn credyd[23]). Mae'r dull hwn yn annigonol am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad:

> "Mae amgylchiadau amlwg lle gall pobl dan 18 oed gael cardiau credyd a/neu eu defnyddio. Er enghraifft, mae'n bosibl i oedolyn sy'n dal cerdyn credyd yn gyfreithlon roi benthyg y cerdyn i rywun o dan 18 oed. Yn yr achos hwn, ni ellir defnyddio cerdyn credyd yn gadarn fel prawf oedran, gan na all y gwerthwr wybod a yw'r cerdyn wedi'i fenthyg neu beidio.
>
> "Mae'r un peth yn wir am unrhyw wasanaeth... sydd yn caniatáu i'r rhai dros 18 mlwydd oed greu cyfrifon (boed ar gyfer prynu alcohol ai peidio) ar sail rhag-awdurdodi taliadau trwy gerdyn credyd. Gallai unrhyw fod wedi creu'r cyfrif ar ran y prynwr."[24]

**Ffigur 2: Enghreifftiau o drefniadau dilysu oedran ar-lein**



Rhaid cydnabod, er hynny, nad yw gwendidau systemau dilysu oedran ar-lein yn dystiolaeth fod plant yn prynu alcohol yn y fath fodd. Nid oes data cadarn ynghylch faint o bobl dan 18 oed sy'n gwneud hynny, ond mae ambell arwydd y gallai'r niferoedd fod yn sylweddol. Roedd adroddiad Alcohol Concern 2013 *Ar garreg eich drws* yn cynnwys canlyniadau arolwg o 636 o bobl ifanc rhwng 14 a 17 mlwydd oed. Dywedodd 15% ohonynt eu bod wedi llwyddo i brynu alcohol ar-lein, a dywedodd mwy na dau draean o'r rhain ei bod yn "hawdd" gwneud hynny.[25] Fel rhan o astudiaeth Prifysgol Glyndŵr, gofynnwyd i 93 o fyfyrwyr gofio a oeddent wedi prynu alcohol ar-lein pan oeddent o dan 18 mlwydd oed. Dywedodd 8% ohonynt eu bod wedi gwneud hynny, a 12% eu bod yn gwybod bod rhai eraill wedi'i wneud. Er na ellir ystyried y sampl fach hon yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach, mae'r dulliau prynu a grybwyllodd y myfyrwyr yn ddadlennol: naill ai smalio bod yn henach neu fenthyca cerdyn talu oedolyn – gweler **Ffigur 3** isod.

### Ffigur 3: Sylwadau gan fyfyrwyr Prifysgol Glyndŵr

- **"Wedi dweud celwydd am f'oedran wrth gasglu"**
- **"Wedi dweud celwydd am fy oedran; doedd dim rhaid ei phrofi"**
- **"Mae gwefannau yn gofyn am ddyddiad geni neu'n gofyn os ydych chi dros 18 oed"**
- **"Ychwanegu alcohol at archeb wythnosol Mam heb iddi sylw'"**
- **"Wedi archebu ar Amazon ac ASDA Ar-lein; doedd dim prawf wrth brynu pethau na'u derbyn"**
- **"Roedd cyfrif Amazon gan rywun dros 18 mlwydd oed; llofnododd rhywun arall am yr archeb"**
- **" Wedi archebu o Amazon efo cerdyn credyd Dad"**

At hynny, mae arolygon diweddar gan Bartneriaethau Alcohol Cymunedol yn Lloegr a'r Alban (gyda samplau o hyd at 640 o bobl ifanc yr un) wedi canfod bod rhwng 2% ac 20% o bobl dan 18 oed mewn gwahanol ardaloedd wedi dweud eu bod "fel arfer yn prynu alcohol ar-lein".[26]

## Rhoi profion oedran ar eu prawf

Roedd adroddiad Alcohol Concern *Ar garreg eich drws* yn cynnwys canlyniadau profion prynu a gynhaliwyd yng Nghaerdydd gan Heddlu De Cymru gyda phrynwyr 15 oed. Prynwyd alcohol o archfarchnadoedd ar-lein ar naw achlysur, ac ar bedwar o'r rhain trosglwyddwyd alcohol i'r prynwyr ifanc heb ofyn am brawf oedran, er gwaethaf addewidion y gwerthwyr i beidio â darparu alcohol i rai dan 18 oed.

Yn 2021, rhoddodd Alcohol Change UK brawf arall ar addewidion gwerthwyr ar-lein am ddilysu oedran. Y tro hwn, cwmni archwilio annibynnol blaenllaw a wnaeth y gwaith ar ein rhan, gan recriwtio prynwyr 18 a 19 mlwydd oed. (Am resymau cyfreithiol – gan nad oeddem yn gweithio gyda'r heddlu – nid oeddem yn gallu cynnwys prynwyr dan 18 oed).

Mae pob un o'r gwerthwyr y buom yn eu profi wedi cyhoeddi bolisi yn dweud na fyddant yn dosbarthu alcohol i bobl dan 18 oed, ac mae'r rhan fwyaf yn gweithredu polisi Challenge 25 (neu bolisi cyfatebol) o ofyn i unrhyw un sydd i'w weld dros 25 oed ddangos dogfennau adnabod dilys sy'n cadarnhau eu bod yn 18 oed neu'n hŷn er mwyn derbyn eu nwyddau.

Er mwyn mesur cydymffurfiaeth ar draws y sector, cafodd ystod eang o werthwyr ar-lein eu cynnwys yn y gwaith, gan gynnwys archfarchnadoedd, gwasanaethau cyflenwi trwy app, a gwerthwyr ar-lein sydd mewn partneriaeth gyda siopau bach lleol. Ymhob achos roedd yr eitemau a archebwyd i fod i gyrraedd y cwsmer ymhen dwy awr.

### Ffigur 4: Gwerthwyr wedi'u cynnwys yn y profion prynu:

## Canlyniadau

Gwnaethpwyd 50 o profion prynu ym mis Chwefror 2021, gan brynu oddi wrth 12 o werthwyr a gan archebu alcohol ar-lein i gael ei ddosbarthu o fewn dwy awr. Cafodd pob un o'r gwerthwyr eu profi ddwywaith o leiaf a hyd at chwe gwaith. Ar y rhan fwyaf o achlysuron (46 gwaith) archebwyd alcohol ynghyd â bwyd; ar bedwar achlysur archebwyd alcohol ar ei ben ei hun.

Cafodd alcohol a archebwyd ei drosglwyddo i'r prynwyr 18 neu 19 oed ar garreg y drws heb ofyn am dystiolaeth ddilys o'u oedran ar 36 o'r 50 achlysur. Felly, ar gwta 28% o'r achlysuron roedd rhaid i'r prynwyr brofi eu bod yn ddigon hen i brynu alcohol. Nid oedd yr un gwerthwr yn gofyn am brawf oedran ar fwy 50% o achlysurol. Roedd un gwerthwr na ofynnodd o gwbl am dystiolaeth o oedran gan neb o'r prynwyr.

> Cafodd alcohol ei drosglwyddo i'r prynwyr 18 neu 19 oed heb ofyn am dystiolaeth ddilys o'u oedran ar 36 o'r 50 achlysur. Ar gwta 28% o'r achlysuron roedd rhaid i'r prynwyr brofi eu bod yn ddigon hen.

Cafodd oedran y prynwyr ei gwirio ar 14 achlysur (28%): gofynnodd y gyrrwr am ddogfen adnabod ac edrychodd arni. Ar dri o'r achlysuron hyn, gofynnodd y gyrrwr hefyd i'r prynwr ddweud ei ddyddiad geni.

Ar chwech o'r 36 achlysur na chafodd oedran ei gwirio'n effeithiol, gofynnodd y gyrrwr ar lafar am oedran y prynwr a rhoi honno yn eu dyfais ond ni ofynnodd am brawf oedran: barnwyd bod cadarnhad llafar gan y prynwr ei fod dros 18 oed yn ddigonol. Ar y 30 achlysur arall, ni ofynnwyd am oedran prynwr nac am brawf oedran. Ar un achlysur, ni fu geiriau o gwbl rhwng y prynwr a'r gyrrwr. Mae'n braf nodi, er hynny, na chafodd alcohol erioed ei adael y tu allan i'r tŷ – gweler **Atodiad 2** isod.

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad yw gwerthwyr alcohol ar-lein, yn aml, yn gwneud digon i sicrhau nad yw alcohol yn cael ei drosglwyddo i rai dan oed ar garreg y drws. Gan fod y prynwyr yn yr achos yma dros 18 mlwydd oed, ni thorrwyd mo'r gyfraith (gweler isod), ond roedd gwerthwyr heb gadw at eu polisïau eu hun sy'n nodi y byddant yn gofyn am ddogfen adnabod gyda llun ym mhob achos lle mae'r prynwr i'w weld o dan 25 oed.

> Nid yw gwerthwyr alcohol ar-lein, yn aml, yn gwneud digon i sicrhau nad yw alcohol yn cael ei drosglwyddo i rai dan oed ar garreg y drws.

Diben polisïau o'r fath yw lleihau yfed dan oed, ac mae eu mabwysiadu mewn siopau ar lawr gwlad wedi cyfrannu at safonau uwch o ran gwirio oedran: ym mis Rhagfyr 2015, adroddwyd bod archfarchnadoedd, siopau lleol, a gorsafoedd petrol sy'n gwerthu alcohol, wedi pasio mwy nag 80% o brofion prynu.[27]

Felly, mae ein ffigur ni o brofi oedran cwta 28% o weithiau ar garreg y drws yn arwydd o fethiant sylweddol. Yn 2013, mewn ymateb i ganlyniadau'r profion prynu a ddisgrifiwyd yn *Ar garreg eich drws*, awgrymodd gwerthwyr mai ffrwyth camgymeriadau gyrwyr unigol oedd y fath fethiannau. Mae'r canlyniadau Newydd hyn yn dod o sampl fwy o dipyn, ac felly mae'n llawer anoddach rhoi'r bai eto ar yrwyr unigol; mae awgrym yma o fethiannau mwy sylfaenol.

Yn wir, yn 2018 cynhaliwyd astudiaeth fwy ei maint gyda 4,395 o brynwyr dirgel yn archebu alcohol a nwyddau eraill â chyfyngiad oedran arnynt oddi wrth werthwyr ar-lein. Gofynnwyd am brawf oedran ar lai na 50% o achlysuron.[28] Mae'n eithaf rhesymol tybio bod y pandemig a'r rheolau pellter cymdeithasol wedi creu anawsterau ychwanegol wrth wirio oedran ar garreg y drws, ond mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod problem i'w chael cyn 2020.

# Y gyfraith ar werthu alcohol ar-lein

Pasiwyd Deddf Trwyddedu 2003 (sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr) bron i 20 mlynedd yn ôl, pan oedd siopa ar-lein megis dechrau. Teg yw gofyn a yw'r Ddeddf yn ddigonol ar gyfer rheoleiddio gwerthu alcohol ar-lein a'i ddosbarthu i'r cartref?

Ymhlith amcanion gwreiddiol y Ddeddf mae diogelu plant rhag niwed – amcan sydd yr un mor bwysig ag erioed.[29] Yn yr un modd, mae papur polisi'r Swyddfa Gartref ar werthu alcohol yn nodi'n glir (gydag ychydig o eithriadau cyfyng ar gyfer tafarndai) fod gwerthu alcohol "i unrhyw un dan 18 oed yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr".[30]

Adran 151 o'r Ddeddf sy'n ymdrin yn benodol â dosbarthu alcohol i blant, ac mae'n nodi na chyflawnir trosedd pan fydd "yr alcohol yn cael ei ddanfon i fan lle mae'r prynwr neu, fel y gallai ddigwydd, y person sy'n ei dderbyn yn byw neu'n gweithio" hyd yn oed os yw'r person hwnnw o dan 18 oed.[31] Felly, yn ôl pob golwg o



leiaf, nid oes y fath drosedd â dosbarthu alcohol i blentyn yng Nghymru a Lloegr.

Mae Adran 190 o'r Ddeddf yn nodi y "dylid ystyried bod alcohol yn cael ei werthu pan gaiff ei neilltuo i'r contract", sef lle y caiff ei glustnodi a'i osod yn benodol o'r neilltu i'w ddanfon i'r prynwr;[32] er hynny, mae canllawiau 2017 y Swyddfa Gartref yn dweud ei fod yn "gyfrifoldeb i'r sawl sy'n gweini'r alcohol neu'n ei *ddosbarthu* i sicrhau bod oedran y prynwr yn cael ei dilysu a bod dogfen adnabod gyda llun yn cael ei gwirio os yw'r person i'w weld yn llai na 18 oed"[33] (ychwanegwyd italig).

Ar sail hyn, gellid dweud bod angen dilysu oedran yn ystod y broses brynu ar-lein ac wedyn ar garreg y drws, ond nid yw hynny'n gwbl clir, a buddiol iawn fyddai gwneud y ddeddfwriaeth, neu'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi, yn gliriach yn hyn o beth.

Yn ddiddorol, yn Neddf Trwyddedu'r Alban 2005, mae Adran 108 – sy'n ymdrin â dosbarthu alcohol i blant – yn ei gwneud yn drosedd dosbarthu alcohol, neu ganiatáu iddo gael ei ddosbarthu, i blentyn, heb yr eithriad sydd yn Adran 151 o Ddeddf Trwyddedu 2003 Cymru a Lloegr ar gyfer dosbarthu alcohol i gartref neu weithle.[34]

Mae Deddf Trwyddedu a Chofrestru Clybiau Gogledd Iwerddon (Diwygiad) 2021, a ddaw i rym yn Ebrill 2022, yn gosod gofyniad ychwanegol ar y sawl sy'n dosbarthu alcohol: sef, yn ogystal â gofyn am weld dogfen adnabod briodol (fel y dywedir yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfer Cymru a Lloegr 2017, ac Adran 108(7) o Ddeddf Trwyddedu'r Alban 2005) mae hefyd yn ofynnol "cofnodi yn y cofnod dosbarthu neu'r anfoneb sydd gan y deiliad, ei was neu'i asiant…ddisgrifiad o'r ddogfen a ddangoswyd".[35] Felly, yn ogystal â mynnu gweld dogfen adnabod, mae rhaid i bob gyrrwr hefyd gofnodi pa fath o ddogfen a welodd.

Ar gefn y rheol newydd hon yng Ngogledd Iwerddon, mae Asda wedi dweud eu bod yn gwella eu prosesau ar gyfer dosbarthu alcohol i gwsmeriaid sy'n ei brynu ar-lein. O Ebrill 2022, polisi'r cwmni fydd bod rhaid i bob archeb sy'n cynnwys alcohol, ledled y Deyrnas Unedig, gael ei gwirio â llaw gan y gyrrwr, gan gynnwys cofnodi a allai'r cwsmer ddangos dogfen adnabod a pha fath o ddogfen a ddangoswyd. Nid yw'n glir eto a fydd gwerthwyr eraill yn mabwysiadu'r un dull trwy wledydd Prydain i gyd yn sgîl deddfwriaeth Gogledd Iwerddon.

# Dod â phroblem?

Yn 2013, mewn ymateb i *Ar garreg eich drws*, mynnodd llefarydd ar ran Consortiwm Manwerthu Prydain fod "systemau cadarn yn eu lle ar gyfer cynhyrchion â chyfyngiad oedran arnynt sy'n cael eu prynu ar-lein" a bod pob "gyrrwr yn cael ei hyfforddi i ofyn am ddogfen adnabod os oes ganddo reswm da dros gredu bod ansicrwydd am oedran".[36]

Roedd Alcohol Change UK am ddeall mwy am brofiadau y fath yrwyr, gan gynnwys eu dealltwriaeth am eu cyfrifoldebau eu hun a chyfrifoldebau eu cyflogwyr. Yn 2021, comisiynwyd cwmni ymchwil o Gymru, Cogent Research,[37] i archwilio'n benodol brofiadau gyrwyr sy'n gweithio i wasanaethau dosbarthu bwyd a diod cyflym, yn ogystal â phrofiadau gyrwyr y prif archfarchnadoedd a chwmnïau dosbarthu.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys 12 o gyfweliadau Zoom manwl gydag amrywiaeth o yrwyr, er mwyn archwilio eu profiadau o ddosbarthu alcohol yng Nghymru. Roedd pob cyfweliad yn para am 45 munud. Mae dadansoddiad o'r sampl i'w weld yn **Atodiad 3** isod.

## Canlyniadau

Datgelodd y cyfweliadau ddryswch gwirioneddol ymhlith gyrwyr ynghylch polisïau gwerthwyr ar ddilysu oedran, ac arferion anghyson ar garreg y drws. Er enghraifft, dywedodd rhai gyrwyr eu bod yn gwybod ei bod yn bolisi gan gwmni beidio â dosbarthu alcohol i unigolion sydd i'w weld o dan 18 oed; nid oedd eraill wedi clywed am bolisi o'r fath; a byddai eraill weithiau'n dewis peidio â holi cwsmer am ei oedran. Dywedodd rhai gyrwyr eu bod yn cymryd bod oedran y cwsmer yn cael ei gwirio ar-lein ac felly nad oedd angen ei gwirio ar garreg y drws.

> "Gallwn ei adael e yn unrhyw le. Dydyn ni ddim yn ei werthu, felly dyw e ddim yn fater i ni."
>
> Gyrrwr cwmni dosbarthu

> "Dw i erioed wedi gofyn i unrhyw un am ID. Baswn i, tasen nhw i'w gweld yn eitha ifanc, ond maen nhw bob amser yn amlwg dros ddeunaw oed pan dwi wedi cyrraedd. Dyw hi erioed wedi bod yn broblem. Dwi'n cymryd bod proses wirio pan fydd pobl yn archebu."
>
> Gyrrwr cwmni app bwyd

Soniodd gyrwyr am y pwysau ar eu hamser a'r tynder rhwng yr angen i wirio oedran a'r angen i symud ymlaen i'r jobyn nesaf. At hynny, roedd rhai yn poeni am anghyfleustra, a chost ariannol o bosibl, dychwelyd alcohol i'r gwerthwr ar ôl peidio â'i roi i gwsmer.

> "Byddai hi'n braf pe bai ffordd i wirio ID cyn i ni gyrraedd, yn lle dibynnu ar yrwyr i'w wneud e. Mae dibynnu ar yrwyr yn broblem, gan bod ni eisoes yn ddigon prysur. Dych chi ddim eisiau bod yn hongian o gwmpas neu'n mynd ag archebion yn ôl. Does neb eisiau'r fath ffwdan."
>
> Gyrrwr cwmni app bwyd

"Os oedden nhw'n i'w weld yn ifanc iawn, fe fyddwn i'n mynd â'r archeb yn ôl – dros fy mhechodau! Fyddwn i ddim yn cael fy nhalu."

Gyrrwr cwmni app bwyd

Mewn rhai achosion, roedd gyrwyr yn barod i adael alcohol yn y 'lle diogel' roedd y cwsmer wedi ei nodi, ac o ganlyniad nid oedd modd dilysu oedran y prynwr gan nad oedd y gyrwyr a'r cwsmer yn cwrdd.

"Dw i erioed wedi gorfod gofyn am ID na chadarnhau oedran i drosglwyddo parsel. Dw i wedi gadael archeb Beer 52 [clwb cwrw crefftus] mewn garej, mewn hafdy i gwsmer arall."

Gyrrwr cwmni dosbarthu

Soniwyd sawl gwaith am ddiffyg hyfforddiant penodol ynghylch alcohol, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n gweithio fel gyrwyr rhan-amser neu fel swydd fach er mwyn ychwanegu at eu prif incwm.

"Does dim hyfforddiant. Mae'n rhaid i chi ddysgu eich hun neu fynd â ffrind gyda chi i ddangos i chi sut i'w wneud"

App-based delivery driver

"Dydw i ddim wedi cael unrhyw reswm i gwestiynu eu hoedran. Rwy'n dychmygu ei fod yn codi ond dydyn ni ddim yn cael hyfforddiant. Mae'n fater o gyrraedd a gollwng y pecyn."

Gyrrwr cwmni dosbarthu

Nid bod pob gyrrwr o'r un farn. Yn wir, roedd sawl ymateb yn dangos bod rhai gyrwyr yn meddwl o ddifri am eu cyfrifoldeb i beidio â phasio alcohol i rai dan 18 oed.

"Rydyn ni i gyd yn ei gymryd o ddifri. Rydyn ni'n ennill arian da, weithiau £650 yr wythnos felly dydyn ni am ddinistrio hynny drwy roi alcohol i rywun ifanc."

Gyrrwr cwmni app bwyd

"Y rhan fwyaf o'r amser mae'n rhaid i chi wirio oedran. Os ydyn nhw'n edrych yn rhy ifanc yna mae'r app yn dweud wrthych chi bod angen i chi weld ID."

Gyrrwr cwmni app bwyd

Er hynny, mae'r darlun at ei gilydd yn un amwys iawn, gyda rhai gyrwyr o leiaf wedi'u hyfforddi'n annigonol neu heb eu hyfforddi o gwbl; heb wybod am bolisi'r cwmni; ac yn gorfod penderfynu drostynt eu hunain a ddylid rhoi'r alcohol i'r cwsmer neu beidio.

# Cwsmeriaid meddw

Yn ogystal â phrofi oedran, mater arall sy'n gofyn am sylw yw sut i ymdrin â sefyllfaoedd lle mae'r cwsmer i'w weld yn feddw ar garreg ei ddrws.

Mae adran 141 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn dweud ei bod yn drosedd i ddeiliad trwydded werthu, neu geisio gwerthu, alcohol yn "fwriadol" i "berson sy'n feddw", neu i ganiatáu i alcohol gael ei werthu i berson o'r fath.[38] Mewn gwirionedd, anaml iawn y bydd achosion o'r fath yn dod gerbron y llysoedd, yn ôl pob tebyg gan ei bod mor anodd darparu tystiolaeth gadarn bod rhywun wedi gwerthu alcohol yn fwriadol gan wybod bod y cwsmer yn feddw.[39]

Wrth reswm, mae penderfynu a yw rhywun yn feddw wrth archebu alcohol ar-lein yn anodd neu'n amhosibl. Mae ymdrin â'r cwestiwn ar garreg y drws felly yn bwysicach fyth. Mae rhai gwerthwyr (ond nid pob un) y buom yn edrych arnynt wedi cyhoeddi polisïau yn dweud y byddant yn gwrthod trosglwyddo alcohol ar garreg y drws i rywun sydd i'w weld yn feddw.

Cynhaliodd cwmni ymchwil arolwg ar ein rhan ni yn 2020 gyda 491 o oedolion yng Nghymru a oedd wedi prynu alcohol ar-lein yn ystod y 12 mis blaenorol.[40] Dywedodd mwy na thraean (37%) o'r ymatebwyr eu bod, ar adegau, wedi bod yn feddw gartref pan gyrhaeddodd eu harcheb.

Dywedodd mwy na hanner (53%) y rhai a oedd yn feddw ar un achlysur yn unig fod y gyrrwr wedi pasio eu harcheb iddynt, a dywedodd 16% fod yr archeb wedi'i gadael ar eu cyfer ar garreg y drws neu mewn lle diogel. Mewn modd tebyg, dywedodd mwy na hanner (52%) a oedd yn feddw ar fwy nag un achlysur fod y gyrrwr wedi pasio eu harcheb iddynt ar un o leiaf o'r achlysuron hynny, a dywedodd traean (33%) fod yr archeb wedi'i gadael ar garreg y drws neu mewn lle diogel. Dim ond 7% o'r rhain a ddywedodd fod y gyrrwr wedi gwrthod trosglwyddo'r alcohol a archebwyd.

Dywedodd mwy na hanner y rhai oedd yn feddw fod y gyrrwr wedi pasio eu harcheb alcohol iddynt

Arolwg gymharol fach oedd hon, felly rhaid peidio â phwyso'r rhy drwm ar y canlyniadau. Er hynny, cynhaliwyd arolygon tebyg eu ffurf ond mwy eu maint yn Awstralia yn ddiweddar, gan esgor ar ganlyniadau tebyg. Mewn un achos,[41] gwelwyd bod 23% o 1,600 o oedolion a holwyd a oedd yn archebu alcohol ar gyfer ei ddosbarthu'n gyflym atynt, yn yfed yn "beryglus iawn" (yn ôl diffiniad Awstralia, mwy nag 11 o ddiodydd safonol mewn un sesiwn bob wythnos – sy'n cyfateb i tua chwe pheint o gwrw). Dywedodd mwy na chwarter (28%) yr ymatebwyr eu bod yn feddw ar bob achlysur, ar y rhan fwyaf o achlysuron, neu ar rai

achlysuron wrth dderbyn eu harcheb, a chododd y ffigur i 71% ymhlith y rhai oedd yn archebu alcohol yn y fath fodd bob wythnos.

Roedd cyfweliadau a wnaeth Cogent Research ar ein rhan gyda gyrwyr yn 2021 (a drafodwyd uchod) yn cynnwys cwestiynau am eu profiadau o ddosbarthu alcohol i gwsmeriaid meddw. Ychydig iawn a ddywedodd eu bod wedi cael profiad o'r fath, ond roedd rhai yn mynegi pryderon am anhawster barnu a yw rhywun yn feddw mewn sgwrs a all bara ychydig eiliadau yn unig.

> "Os ydych chi'n gweld rhywun am ddeg neu bymtheg munud mewn tafarn, gallwch benderfynu ydyn nhw wedi cael digon o alcohol, ond dim pan fyddwch chi'n curo drws ac yn siarad am ryw ddeg eiliad. Allwch chi ddim dweud. Dim fy mhenderfyniad i yw hwnna, dim fy ngwaith i."
>
> Gyrrwr cwmni dosbarthu

Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn teimlo mai eu lle nhw oedd penderfynu a oedd cwsmer yn feddw neu beidio. Roeddent hefyd yn credu y gallai fod yn beryglus iddynt wrthod rhoi alcohol i gwsmer, yn enwedig mewn man diarffordd.

> "Gallai pethau droi'n eitha ymosodol. Os ydych chi mewn tafarn ac mae hyn yn digwydd, mae gyda chi staff y bar o'ch cwmpas, cwsmeriaid eraill i'ch cefnogi chi, ond os ydych chi ar eich pen eich hun mewn gardd dywyll neu ar garreg y drws, dyw hwnna ddim yn lle da i fod."
>
> Gyrrwr cwmni app bwyd

> "Baswn i'n meddwl basen nhw'n mynd yn grac. Fe allen nhw ddweud, 'Aros di, dwi wedi talu am hwn'. Gallai fe fynd yn wael iawn."
>
> Gyrrwr cwmni app bwyd

Dywedodd llawer o'r gyrwyr a gyfwelwyd yr hoffent gael mwy o eglurder am eu hawliau a'u cyfrifoldebau o ran peidio â phasio alcohol i gwsmeriaid meddw, gan awgrymu eu bod heb gael eu hyfforddi'n ddigonol ar y mater.

## Y dyfodol?

Yn Ionawr 2021, cyhoeddodd y Gynghrair Yfed Cyfrifol Ryngwladol a'i 12 aelod-gwmni (rhai o brif gynhyrchwyr cwrw, gwin a gwirodydd y byd) bartneriaeth newydd gyda 12 (14 bellach) o werthwyr ar-lein a phlatfformau e-fasnach byd-eang a rhanbarthol. Rhwystro gwerthu alcohol ar-lein i'r rhai dan oed oedd y nod. Cyhoeddwyd safonau byd-eang i atal gwerthu i yfwyr dan oed ac i bobl feddw.[42] Mae rhaid croesawu'r safonau hyn, ynghyd â chanllawiau'r Grŵp Safonau Manwerthu Alcohol,[43] ond ni ddylid disgwyl iddynt wneud gwahaniaeth syfrdanol, o ystyried pa mor effeithiol fu rhai o addewidion blaenorol y diwydiant alcohol.[44]

Wrth i'n bywydau ar-lein ymblethu'n fwyfwy yn ei bywydau ar lawr gwlad, bu pwyslais newydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddiogelu preifatrwydd ac diogelu plant rhag niwed ar-lein. Bu'r Swyddfa Gartref yn gweithio'n ddiweddar gyda'r Swyddfa Ddiogelwch a Safonau Cynnyrch (OPSS) i gynnig 'Blwch Tywod' Rheoleiddio. Y bwriad yw y bydd hwn yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr a gwerthwyr brofi dulliau arloesol i ddilysu oedran, megis adnabod digidol a dulliau tebyg, a hynny yng nghyd-destun gwerthu alcohol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.[45] Fel rhan o'r fenter hon, mae pump archfarchnad fawr yn treialu camerâu hunan-wirio sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i asesu a yw cwsmeriaid dros 25 oed.[46]

A fyddai modd defnyddio technoleg o'r fath ar garreg y drws? Mae Hipbar, a ddisgrifir fel app diodydd cyntaf yr India,[47] yn mynnu bod cwsmeriaid y defnyddio camera eu ffôn i sganio dogfen adnabod a hefyd i recordio fideo byr o'u hwyneb ar gyfer amcangyfrif oedran. Y tro cyntaf i'r cwmni ddosbarthu diodydd i'r cwsmer, bydd y gyrrwr yn sicrhau bod y ddogfen adnabod a'r fideo yn cyfateb i'r person sy'n derbyn yr archeb. Byddai'n ddiddorol gwybod pa mor dderbyniol fyddai'r fath ddull i gwsmeriaid ym Mhrydain, ac mae'n ddigon posibl y byddai'n codi cwestiynau am breifatrwydd personol, yn enwedig gan y gellid dadlau mai man breifat, nid un gyhoeddus, yw carreg drws tŷ rhywun.

Ac yn olaf, mae datblygiadau fel cerbydau dosbarthu di-yrrwr yn dod yn nes o hyd, ac yn debygol o ddibynnu'n fwy fyth ar dechnoleg ddigidol i ddilysu oedran (neu benderfynu a yw cwsmer yn feddw hyd yn oed). Er enghraifft, mae Asda wedi dweud mai nhw fydd y cyntaf i dreialu faniau di-yrrwr yn fasnachol, mewn partneriaeth â Wayve Technologies, er mwyn cynnig opsiynau dosbarthu newydd ac arloesol i'w cwsmeriaid.[48]

> Mae datblygiadau fel cerbydau dosbarthu di-yrrwr yn dod yn nes o hyd

Wrth i fwy a mwy o gwsmeriaid droi at siopa am alcohol ar-lein, ac wrth i dechnoleg barhau i symud ymlaen, mae'n eglur iawn fod angen edrych eto ar y rheolau ar gyfer gwerthu alcohol ar-lein a'i ddosbarthu i'r cartref, a'u gwella er mwyn sicrhau bod plant ac oedolion bregus yn cael eu diogel rhag niwed.



# Casgliad ac argymhellion

Yn ôl yn 2013 y nododd ein helusen ragflaenol, Alcohol Concern, fod dilysu oedran ar-lein ac ar garreg y drws yn annigonol. Bron i ddegawd wedyn, mae'r un problemau i'w cael o hyd; ond yn awr, mae'r mater yn bwysicach nag erioed. Rydym yn byw mewn byd lle mae siopa am alcohol ar-lein yn rhan o'r 'normal newydd': ochr yn ochr â bwydydd i'r teulu; fel rhan o gynllun archebu misol clwb gwin neu gwrw; neu drwy brynu ar fympwy trwy app o siopau lleol a derbyn yr archeb ymhen munudau. Dyma duedd a oedd eisoes yn tyfu cyn y pandemig ond sydd bellach wedi cyflymu ac yn debygol o aros gyda ni.

Yn ein barn ni, mae angen mynd ati ar hyd sawl trywydd er mwyn sicrhau bod gwerthu diodydd alcoholaidd ar-lein yn llai tebyg o arwain at niwed, gan gynnwys:

- Dylai gwerthwyr sefydlu system hyfforddiant a chefnogaeth gadarn i'w gyrwyr, er mwyn eu galluogi i wrthod yn effeithiol ac yn gyson drosglwyddo alcohol i unrhyw un dan oed neu sydd i'w weld yn amlwg feddw
- Dylai heddluoedd a thimau safonau masnach ledled Cymru a Lloegr gynnal profion prynu yn rheolaidd, gyda phrynwyr dan 18 mlwydd oed, er mwyn profi i ba raddau mae gwerthwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith ac â'u polisïau eu hunain i beidio â gwerthu alcohol na'i gyflenwi i'r rhai dan oed. Dylid ystyried hefyd y ffordd orau i brofi a yw alcohol yn cael ei drosglwyddo i bobl sy'n feddw
- Dylid cydnabod yr angen am ragor o ymchwil er mwyn deall yn well i ba raddau mae pobl dan oed yn cael gafael ar alcohol drwy werthwyr ar-lein
- Dylid edrych eto ar ddeddfwriaeth drwyddedu Cymru a Lloegr, a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi, er mwyn sicrhau ei bod yn eglur i bawb beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth werthu alcohol ar-lein a'i ddosbarthu i gartrefi pobl.

## Atodiad 1: Detholiad o bolisïau gwerthwyr ar ddilysu oedran (wedi'u golygu, a phwyslais wedi'i ychwanegu mewn mannau)

| Gwerthwr | Polisi dilysu |
|---|---|
| **Amazon Fresh** | Drwy osod archeb ar gyfer un o'r eitemau hyn rydych chi'n datgan eich bod yn 18 oed neu'n hŷn...Er mwyn cadarnhau bod y derbynnydd dros 18 oed efallai y bydd angen dangos dogfen adnabod ffotograffig ddilys gyda dyddiad geni. Bydd y gyrrwr yn rhoi blwyddyn eich geni yn ei ddyfais ac yna efallai y bydd angen dangos dogfen adnabod er mwyn cwblhau'r broses wirio oedran...Os nad yw'r derbynnydd dros 18 oed ac na all ddangos dogfen adnabod ddilys gyda llun, bydd yr eitem yn cael ei dychwelyd at Amazon.[49] |
| **Asda** | Er mwyn archebu trwy ein gwefan mae'n rhaid i chi fod dros 18 oed. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y person sy'n derbyn archeb dros 18 oed ac y gallwch ddangos hyn i ni os cewch eich herio. Os nad ydym yn fodlon bod y person sy'n derbyn yr archeb dros 18 mlwydd oed, yna efallai na fyddwn yn trosglwyddo eich archeb...Rydym hefyd yn dilyn polisi Challenge 25 ar gyfer prynu alcohol...Os yw'r person sy'n derbyn eich archeb i'w weld o dan 25 oed, bydd y gyrrwr yn gofyn am ddogfen adnabod gyda llun...i brofi eu bod dros 18 oed ac yn gallu prynu nwyddau o'r fath yn gyfreithlon. [50] |
| **Beelivery** | Rydych chi'n gallu archebu alcohol...os ydych chi dros 18 oed. Os ydych chi i'ch gweld o dan 25 oed, bydd y gyrrwr yn gofyn i chi am brawf oedran. Dim ond trwyddedau gyrru neu basbortau sy'n cael eu derbyn. Os na allwch chi brofi'ch oedran, bydd y gyrrwr yn dychwelyd y nwyddau ac efallai y codir ffi arnoch chi (wedi'i thynnu allan o'ch ad-daliad) am gost dychwelyd y nwyddau.[51] |
| **Beerhawk** | Rhaid i chi fod o'r oedran yfed gyfreithlon yn eich gwlad, rhanbarth neu dalaith (18 oed neu'n hŷn yn y Deyrnas Unedig) i ddefnyddio'r wefan a/neu brynu cynhyrchion[52]...Nodwch, yn ôl y gyfraith, na chaniateir i ni adael unrhyw nwyddau alcoholig gydag unrhyw berson sy'n methu â darparu prawf eu bod dros 18 oed.[53] |
| **Brewdog** | Wrth archebu a thalu bydd gofyn i chi gadarnhau eich bod yn 18 oed neu'n hŷn. Os yw eich archeb yn rhodd ac yn cynnwys alcohol, rhaid i'r derbynnydd hefyd fod yn 18 oed neu'n hŷn. Bydd yn ofynnol i oedolyn dros 18 oed lofnodi wrth ei dderbyn.[54] |
| **Co-op** | Drwy osod archeb rydych chi'n cadarnhau eich bod yn 18 oed neu'n hŷn...Rydym yn gweithredu polisi Challenge 25. Mae hyn yn golygu, os yw'r person sy'n casglu neu'n derbyn eitemau â chyfyngiad oedran arnynt o dan 25 oed, y byddwn yn gofyn am ddogfen adnabod gyda llun (fel trwydded yrru neu basbort) er mwyn profi eu bod dros 18 oed.[55] |
| **Deliveroo** | Drwy osod archeb drwy'r app, rydych chi'n cadarnhau eich bod yn 18 oed neu'n hŷn. Mae Deliveroo yn gweithredu polisi dilysu oedran, a thrwy hwnnw bydd y beiciwr yn gofyn i gwsmeriaid sy'n archebu cynhyrchion â chyfyngiad oedran arnynt ddarparu prawf eu bod yn 18 oed neu'n hŷn cyn trosglwyddo'r archeb. Gall y reidiwr wrthod rhoi unrhyw gynnyrch â chyfyngiad oedran arnynt i unrhyw berson os na allant ddarparu dogfen adnabod ddilys gyda llun sy'n profi eu bod yn 18 oed neu'n hŷn.[56] |
| **Fancy** | Dim ond os ydych chi'n 18 mlwydd oed y gallwn ni werthu alcohol i chi. Bydd ein gyrwyr yn gofyn i chi gyflwyno eich dogfen adnabod ddilys i gadarnhau eich bod yn 18 oed o leiaf. Os na fyddwch chi'n darparu ddogfen ddilys yn cadarnhau eich bod yn 18 oed o leiaf, ni fydd eich gyrrwr yn rhoi'r cynhyrchion i chi a byddwn yn ad-dalu cost eich archeb, ar ôl tynnu unrhyw ffioedd danfon.[57] |
| **Getir** | Rydym yn defnyddio Challenge 25 ar gyfer gwerthu alcohol. Os yw'r cludwr yn credu eich bod yn iau na 25 oed, bydd yn gofyn am ddogfen adnabod ddilys i gadarnhau eich oedran. Bydd y cludwr yn ceisio gwirio eich oedran yn eich masg neu'ch gorchudd wyneb os ydych chi'n gwisgo un, ond os na allant, byddant yn gofyn a allwch ei dynnu am eiliad o bellter diogel. Yn anffodus, os nad ydych chi'n fodlon gwneud hyn, gwrthodir rhoi'r archeb i chi.[58] |

| Gwerthwr | Polisi dilysu |
|---|---|
| **Gorillas** | I gofrestru gyda Gorillas drwy'r app a derbyn y cynhyrchion mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn...Rydym yn gweithredu polisi Challenge 25, sy'n golygu, os yw'r sawl sy'n derbyn alcohol i'w weld o dan 25 oed, y byddwn yn gofyn am ddogfennau adnabod...Efallai y byddwn yn cadw'r cynhyrchion os nad yw prawf oedran neu oedolyn arall ar gael.[59] |
| **Go Puff** | Drwy edrych ar ein gwasanaethau, eu defnyddio neu'u cyrchu, rydych chi'n ardystio eich bod yn 18 oed o leiaf ac y byddwch yn darparu dogfennau adnabod gyda llun i wirio eich oedran wrth ddosbarthu eich archeb. Rydych chi'n cytuno na fyddwch chi'n trosglwyddo cynhyrchion â chyfyngiad oedran arnynt a gewch drwy Gopuff i unrhyw berson nad yw dros 18 oed.[60] |
| **Honestbrew** | Drwy osod archeb gyda ni ar-lein, cofrestru ar gyfer cyfrif, neu gofrestru ar gyfer marchnata, rydych chi'n cadarnhau eich bod yn 18 oed neu'n hŷn...Os ydych chi'n prynu alcohol i rywun arall, rhaid i'r derbynnydd fod yn 18 oed neu'n hŷn hefyd. Rhaid i berson sy'n 18 oed neu'n hŷn lofnodi wrth dderbyn yr archeb. Os oes gan ein cludwyr unrhyw amheuaeth ynghylch oedran y derbynnydd, byddant yn gofyn am ryw fath o ddogfen adnabod. Rydym yn cadw'r hawl i ganslo'r archeb os oes amheuaeth ynghylch oedran y derbynnydd neu bwy ydyw.[61] |
| **Jiffy** | Drwy osod archeb ar gyfer cynnyrch â chyfyngiad oedran arnynt, rydych yn cadarnhau eich bod yn 18 oed o leiaf. Mae Jiffy yn gweithredu polisi dilysu oedran. Er enghraifft, bydd y beiciwr yn gofyn i gwsmeriaid sy'n archebu cynhyrchion â chyfyngiad oedran arnynt ddarparu prawf eu bod yn 18 oed neu'n hŷn cyn i'r archeb gael ei throsglwyddo. Gall y beiciwr wrthod rhoi unrhyw gynnyrch â chyfyngiad oedran arnynt i unrhyw berson na all ddarparu ddogfen adnabod ddilys gyda llun sy'n profi eu bod yn 18 oed neu'n hŷn.[62] |
| **Just Eat** | Drwy osod archeb drwy'r wefan, rydych yn gwarantu...eich bod chi'n 18 oed o leiaf. Os yw eich archeb yn cynnwys unrhyw alcohol...gofynnir i chi ddarparu prawf o'ch oedran wrth gasglu eich archeb neu pan fydd eich archeb yn cael ei ddosbarthu i chi. Os na allwch ddarparu prawf eich bod yn 18 oed neu'n hŷn er boddhad y bwyty o'ch dewis, neu os yw'r bwyty'n credu'n rhesymol bod yr alcohol...rydych chi wedi ei archebu wedi'i brynu gennych chi ar ran rhywun dan 18 oed, mae'r bwyty'n cadw'r hawl i beidio â'i ddosbarthu...i chi.[63] |
| **Morrisons** | Ni fyddwn yn gwerthu nwyddau i bobl dan 18 oed...Rydym yn dilyn polisi Challenge 25 ar gyfer prynu alcohol...Yn unol â hynny, wrth ddarparu nwyddau â chyfyngiad oedran arnynt, os yw'r person sy'n derbyn eich archeb i'w weld o dan 25 oed, byddwn yn gofyn am ddogfen adnabod gyda llun (fel trwydded yrru neu basbort) i brofi eu bod dros 18 oed ac yn gallu prynu nwyddau o'r fath yn gyfreithlon.[64] |
| **Naked Wines** | Drwy osod archeb gyda Naked Wines rydych chi'n cadarnhau eich bod yn 18 oed neu'n hŷn[65]...Bydd ein cwmni dosbarthu yn gadael eich gwin gyda chymydog neu mewn lle diogel os nad ydych chi gartref (ond nid ger y biniau rhag ofn ei fod yn ddiwrnod gwagio'r biniau!).[66] |
| **Ocado** | Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn a rhaid eich bod wedi cwblhau'r broses gofrestru er mwyn gosod archeb...Rydym yn gweithredu polisi Challenge 25, sy'n golygu, os yw'r sawl sy'n derbyn alcohol i'w weld o dan 25 oed, y byddwn yn gofyn am ddogfennau adnabod. Os nad ydym yn fodlon bod person yn y tŷ sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n gallu derbyn yr archeb, byddwn yn cadw'r cynhyrchion alcoholig ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffi ddosbarthu.[67] |
| **Sainsbury's** | Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn a rhaid i chi gwblhau'r broses gofrestru i ddefnyddio ein gwasanaeth bwydydd. Rydym yn gweithredu polisi Think 25. Os yw'r person sy'n derbyn y nwyddau i'w weld o dan 25 mlwydd oed, byddwn yn gofyn am brawf oedran. Efallai y byddwn yn cadw'r nwyddau os nad oes prawf oedran neu oedolyn arall ar gael.[68] |

| Gwerthwr | Polisi dilysu |
|---|---|
| **Tesco** | I gofrestru ar y wefan mae'n rhaid i chi fod dros ddeunaw oed...Mae Tesco yn dilyn polisi Think 25 wrth ddarparu eitemau â chyfyngiad oedran arnynt, felly os yw'r sawl sy'n derbyn y nwyddau i'w weld o dan 25 oed, gofynnir am brawf oedran. Os nad oes prawf ar gael ac nad oes neb o'r oedran honno yn y tŷ pan fydd y gyrrwr yn cyrraedd, bydd y gyrrwr yn cadw'r nwyddau.[69] |
| **Uber Eats** | Rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf...i gael cyfrif. Nid yw'r gwasanaeth ar gael i'w ddefnyddio gan bobl o dan 18 oed.[70] |
| **Virgin Wines** | Pan fyddwch yn cofrestru eich manylion, bydd gofyn i chi roi dyddiad geni dilys i gadarnhau eich bod yn 18 oed neu'n hŷn. Drwy osod archeb rydych chi hefyd yn cadarnhau eich bod yn 18 oed o leiaf. Os ydych chi'n prynu llond bocs o win fel rhodd, rhaid i'r derbynnydd fod dros 18 oed hefyd. Os oes gan ein cludwyr unrhyw amheuaeth ynghylch oedran y derbynnydd wrth ddosbarthu'r archeb, byddant yn gofyn am ryw fath o ddogfen adnabod. Os na all y person sy'n derbyn y gwin ddangos dogfen briodol, yn anffodus ni fydd ein cludwyr yn gallu gadael y gwin.[71] |
| **Waitrose** | Os nad yw eich cynrychiolydd enwebedig yn 18 oed neu'n hŷn, ni fyddwn yn dosbarthu nwyddau, gan gynnwys y rhai sy'n eitemau cyfyngedig...Mae ein gyrwyr yn dilyn ein polisi Challenge 25 ac felly gofynnir am brawf oedran os yw'r person sy'n derbyn y nwyddau i'w weld o dan 25 oed.[72] |
| **Zapp** | Mae Zapp yn gweithredu polisi dilysu oedran Challenge 25 a thrwy hwnnw bydd y beiciwr yn gofyn i gwsmeriaid sydd i'w weld o dan 25 oed ddarparu prawf eu bod yn 18 oed neu'n hŷn. Gall y beiciwr wrthod trosglwyddo unrhyw gynnyrch â chyfyngiad oedran arnynt i unrhyw berson nad yw i'w weld yn 25 oed os na allant ddangos dogfen adnabod ddilys gyda llun sy'n profi eu bod yn 18 oed neu'n hŷn.[73] |

## Atodiad 2: Canlyniadau profion prynu

| Gwerthwr | Cyfradd basio | Detholiad o sylwadau gan brynwyr profi<br>(Wedi'u golygu, pwyslais wedi'i ychwanegu mewn mannau) |
|---|---|---|
| **Just Eat** | **0 / 6** | • Gofynnodd e ai fi oedd Sophie a dwedais 'ie' a rhoddodd y bag i mi ar draws sedd y teithiwr drwy'r ffenestr. Dwedais 'diolch' a dywedodd e 'mwynha dy fwyd'. **Ni ofynnodd fy oedran nac am ID**<br>• Fe wnaeth y dyn oedd yn dosbarthu guro ar y drws, cadarnhau rhif y tŷ, a rhoi'r pizza i mi, ac yna'r seidr a'r dderbynneb. Dwedodd wrthyf am fwynhau fy mwyd a **gadael heb ofyn am fy oedran nac am fy ID**<br>• Fe wnaeth y gyrrwr ffonio fy rhif ffôn. Wedi i mi fynd y tu allan roedd yr archeb wedi cael ei gadael ar y llawr a **gofynnodd am fy enw a gadael**. Roedd yn sgwrs gyflym iawn<br>• Rhoddodd y cludwr fy archeb ar garreg y drws, curo'r drws a chamu'n ôl, diolchodd i mi pan gymerais fy archeb ac yna gadael. **Doedd dim sôn am oedran nac ID**<br>• Curodd y gyrrwr ar y drws a chadarnhaodd fy enw gyda mi cyn rhoi'r bwyd i mi. Yna rhoddodd yr alcohol i mi, yn ogystal â chreision corgimwch a 7up nad oeddwn wedi'u harchebu ond mae'n debyg eu bod yn rhodd gan y bwyty. **Gadawodd heb ofyn am ID.** |
| **Uber Eats** | **3 / 6** | • Rhoddodd [y gyrrwr] y bag i mi a **cherdded i ffwrdd heb ofyn am ID**<br>• Rhoddodd y gyrrwr y bag o fwyd i mi ac yna'r seidr ar wahân, yna diolchodd i mi a gadael. Es i â'r bwyd i'r gegin ac roedd cnoc ar y drws. Roedd y gyrrwr wedi dychwelyd a **gofyn i mi am fy nyddiad geni ond nid ID**<br>• Dywedodd y gyrrwr 'helo', yna trosglwyddodd yr archeb a gadael. **Doedd dim sôn am oedran nac ID.** |
| **Co-op** | **3 / 6** | • Cyrhaeddodd y gyrrwr a gofynnodd am fy enw i mi, yna rhoddodd y bag i mi, **doedd dim sôn am oedran nac ID** ac roedd y sgwrs yn gyflym iawn<br>• Ffoniodd y gyrrwr fi i ddweud ei fod e tu allan. Ar ôl iddo fy ngweld, daeth a **gollwng y bagiau wrth y drws a gadael**<br>• Trosglwyddodd y bag brand Coop a **gadael heb ofyn fy oedran nac am ID**. Ddwedodd y gyrrwr ddim un gair. |
| **Beelivery** | **1 / 6** | • Curodd y gyrrwr ar y drws ac yna symud yn ôl pan atebais. Yna, gofynnwyd am fy rhif PIN, cadarnhawyd bod hyn yn iawn, **diolchodd i mi a gadael**<br>• Rhoddodd e'r bag ar y llawr a chodais i fe. Yna gofynnodd i mi am y PIN a rhoddais i hwnna iddo. Yna, dwedodd 'diolch' a **gadawodd heb ofyn am fy oedran nac am fy ID**<br>• Gofynnodd y gyrrwr am y PIN a rhoddais i fe iddo. Dwedodd 'diolch' a **gadawodd heb ofyn am fy oedran nac am fy ID**<br>• Pan atebais y drws gofynnodd i mi am fy rhif PIN ac yna rhoddodd y bag i mi. **Doedd dim sôn am fy oedran**<br>• Agorais y drws ac roedd y bagiau o flaen y drws. Gofynnodd am y rhif PIN i gadarnhau mai fy archeb i oedd hon ac yna gadawodd. **Ni ofynnwyd am oedran nac ID.** |

| Gwerthwr | Cyfradd basio | Detholiad o sylwadau gan brynwyr profi<br>(Wedi'u golygu, pwyslais wedi'i ychwanegu mewn mannau) |
|---|---|---|
| **Deliveroo** | **1 / 6** | • Rhoddodd y cludwr yr archeb i mi a gadael; **doedd dim sgwrs o gwbl**<br>• Atebais y drws a **gofynnodd e am fy nyddiad geni**. Yna dangosodd y bag Deliveroo agored i mi a gofynnodd i mi gymryd fy mwyd. Dwedodd wrthyf am 'fwynhau fy swper' a 'chael noson dda'<br>• Gofynnodd y gyrrwr am fy enw a gosod y bwyd ar y llawr. **Ni ofynnwyd am oedran nac ID**<br>• Gofynnodd e i mi ai fi oedd Sophie, a phan ddwedais 'ie' **gofynnodd i mi am fy nyddiad geni a'i roi yn ei ffôn**<br>• **Dim ond am fy enw y gofynnodd i mi** ac yna pwyntiodd at yr archeb ar y llawr. |
| **Amazon (Morrisons)** | **1 / 5** | • Gadawodd e'r archeb ar garreg y drws mewn bag Amazon Prime papur mewn bag du wedi'i inswleiddio. Cymerais fy mag bwyd allan o'r bag wedi'i inswleiddio, dwedodd 'diolch' a **gadawodd heb ofyn fy oedran nac am ID**<br>• **Gofynnodd am fy nyddiad geni a'i deipio i'r ffôn ei hun.** Ymddiheurodd am gymryd cyhyd cyn cyrraedd ac yna gadawodd<br>• **Gofynnodd i mi am fy nyddiad geni ond nid ID**, cyn diolch i mi a gadael<br>• Ffoniodd i ddweud ei fod wedi cyrraedd ac **ar ôl agor y drws gofynnodd am fy nyddiad geni**. Yna, dwedodd wrthyf yn gwrtais am 'gael diwrnod da'. |
| **Snappy Shopper** | **1 / 5** | • Agorais y drws a dweud 'diolch' a chymerais fy archeb. **Ni wnaeth y cludwr ofyn am fy oedran nac ID**<br>• **Esboniodd fod rhaid iddo newid y gwin pinc roeddwn i wedi'i archebu am win pinc arall**...Diolchais iddo a dymuno diwrnod da iddo<br>• Pan agorais y drws roedd y bag siopa wrth fy nrws ac roedd y cludwr wrth y car. **Dywedodd y cludwr 'helo' a dwedais 'helo' a 'diolch', dwedodd y cludwr 'diolch' hefyd.** Yna caeais i'r drws<br>• Rhoddodd y cludwr fy archeb ar garreg y drws, cnocio, camu'n ôl o'r drws, **diolchodd i mi pan agorais y drws ac yna gadael**. |
| **Tesco** | **0 / 2** | • Atebais y drws ac eglurodd am y nwyddau oedd wedi'u newid. Yna cymerais fy eitemau allan o'r crât ac fe wnaethom siarad am y rygbi. Dymunodd yn dda i mi a **gadawodd heb ofyn am fy oedran nac am ID**.<br>• Curodd y gyrrwr ar fy nrws ar ôl rhoi'r archeb ar y rhiniog. Dwedodd 'helo', a phwyntio tuag at fy eitemau, yna rhoddodd y dderbynneb i mi. Yr oedd yn sgwrs gyflym iawn, **ac ni ofynnwyd imi am ID**. |
| **Waitrose** | **1 / 2** | • Cymerais y bagiau bwyd allan o flwch dosbarthu Waitrose a dweud 'diolch', yna cododd y blwch a cherdded yn ôl i'w fan. **Ni ofynnodd am fy oedran nac ID.** |
| **Asda** | **1 / 2** | • Fe wnaeth y cludwr fy ffonio, ac agorais y drws. Yna cymerais y nwyddau a'u rhoi yn fy magiau siopa fy hun. **Diolchodd y gyrrwr i mi a gadawodd heb ofyn am oedran nac ID.** |
| **Morrisons** | **1 / 2** | • Doedd dim sgwrs. **Gofynnodd y cludwr i mi am fy enw** a phwyntio at yr archeb ar y llawr. |
| **Sainsbury's** | **1 / 2** | • Gofynnodd y gyrrwr am fy enw pan agorais y drws. **Ni ofynnodd am ID** ond fe ddwedodd e wrthyf fi i gymryd fy amser wrth ddadlwytho'r eitemau. Diolchodd i mi cyn gadael. |

## Atodiad 3: Profiadau gweithwyr dosbarthu alcohol yng Nghymru: Dadansoddiad o'r sampl

| Lleoliad | Nifer o Ymatebwyr |
|---|---|
| Caerdydd a'r cyffiniau | 5 |
| Casnewydd a Chwmbrân | 5 |
| Wrecsam | 1 |
| Abertawe a Chastell-nedd | 1 |

| Rhywedd | Nifer o Ymatebwyr |
|---|---|
| Gwryw | 9 |
| Benyw | 3 |

| Oedran | Nifer o Ymatebwyr |
|---|---|
| 20-25 | 6 |
| 26-30 | 1 |
| 31-35 | 2 |
| 36-40 | 1 |
| 41-45 | 0 |
| 46-50 | 0 |
| 51-55 | 1 |
| 56-60 | 1 |

| Natur eu gwaith dosbarthu | Nifer o Ymatebwyr |
|---|---|
| Llawn-amser | 8 |
| Rhan-amser | 4 |

| Mathau o gwmnïau dosbarthu | Nifer o Ymatebwyr |
|---|---|
| Cwmni danfon | 2 |
| Archfarchnad | 1 |
| App dosbarthu cyflym | 8 |
| Tecawê annibynnol | 1 |

# Cyfeiriadau


1. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (14 Tachwedd 2019). How our internet activity has influenced the way we shop: October 2019. https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/retailindustry/articles/howourinternetactivityhasinfluencedthewayweshop/october2019 - more-people-shop-online-as-internet-use-has-increased

2. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, (1 Chwefror 2021). Impact of the coronavirus (COVID-19) pandemic on retail sales in 2020. https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/articles/impactofthecoronaviruscovid19pandemiconretailsalesin2020/2021-01-28

3 .Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Busnes Misol.

4.Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, (7 Awst 2020). Internet access – households and individuals, Great Britain: 2020. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/bulletins/internetaccesshouseholdsandindividuals/2020

5. Waitrose (2020). How Britain Shops Online: Food and Drink Edition. https://www.waitrose.com/content/dam/waitrose/Inspiration/HOW%20BRITAIN%20SHOPS%20ONLINE%20FOOD%20&%20DRINK%20EDITION.pdf

6. Ibid

7. Ofcom (9 Mehefin 2021). Online Nation: 2021 Report. https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0013/220414/online-nation-2021-report.pdf

8. Shanken News Daily (25 Hydref 2021). Diageo CEO Ivan Menezes on strategy after Covid. Shanken News Daily, ar-lein https://www.shankennewsdaily.com/index.php/2021/10/25/29711/diageo-ceo-ivan-menezes-on-strategy-after-covid/

9. Dadansoddiad ISWR o'r farchnad diodydd (di-ddyddiad). Beverage alcohol ecommerce value grows by 42% in 2020, to reach US$24 billion. IWSR, ar-lein. https://www.theiwsr.com/beverage-alcohol-ecommerce-value-grows-by-42-in-2020-to-reach-us24-billion/

10. Mileham, A. (11 Ebrill 2017). UK leads Europe for online booze sales. The Drinks Business, ar-lein. https://www.thedrinksbusiness.com/2017/04/uk-leads-europe-for-online-booze-sales/

11. Kary, T. (10 Chwefror, 2021). Covid brought booze to your door - and made delivery worth billions. Bloomberg, ar-lein. https://www.bloomberg.com/news/articles/2021-02-10/booze-delivery-online-liquor-sales-are-booming-amid-the-pandemic

12. Butler, S. (28 Hydref 2021). Tesco and Gorillas join forces to test 10-minute delivery service. The Guardian, ar-lein. https://www.theguardian.com/business/2021/oct/28/tesco-and-gorillas-join-forces-to-test-10-minute-delivery-service

13. Saker-Clark, H. (18 Rhagfyr 2021). Just Eat joins forces with Asda for rapid grocery deliveries. The Independent, ar-lein. https://www.independent.co.uk/news/uk/asda-just-eat-deliveroo-uber-eats-tesco-b1978064.html

14. Berg, N. (20 Medi 2021). Co-op becomes the latest supermarket to run on Amazon's rails. Forbes, ar-lein. https://www.forbes.com/sites/natalieberg/2021/09/20/co-op-becomes-the-latest-supermarket-to-run-on-amazons-rails/

15. Wallop, H. (12 Mehefin 2021) 'We are democratising the right to laziness': the rise of on-demand grocery deliveries. The Guardian, ar-lein. https://www.theguardian.com/lifeandstyle/2021/jun/12/the-rise-of-on-demand-grocery-deliveries

16. https://www.tesco.com/help/terms-and-conditions/grocery/

17. https://stuart.com/delivery-groceries-and-special-produce/

18. https://www.beelivery.com/Drivers

19. https://support.beerhawk.co.uk/support/solutions/articles/76000001149-our-chosen-courier-service

20. https://www.virginwines.co.uk/delivery-information

21. Alcohol Concern Cymru (2013). Ar garreg eich drws: Pobl dan oed yn cael gafael ar alcohol drwy wasanaethau dosbarthu i'r cartref. Caerdydd, Alcohol Concern.

22. Muirhead, J. a Grout, V. (2019). Effective age-gating for online alcohol sales. Llundain, Alcohol Change UK. https://alcoholchange.org.uk/publication/effective-age-gating-for-online-alcohol-sales

23. Llywodraeth y Deyrnas Unedig (1974). Deddf Credyd Defnyddwyr 1974.

24. op. cit. Muirhead, J. a Grout, V. (2019), tud. 9-10.

25. Alcohol Concern Cymru (2013). Ar garreg eich drws: Pobl dan oed yn cael gafael ar alcohol drwy wasanaethau dosbarthu i'r cartref. Caerdydd, Alcohol Concern.

26. Ffigurau a ddarparwyd i Alcohol Change UK gan Bartneriaethau Alcohol Cymunedol, Ionawr 2022.

27. Lyons, M. (10 Rhagfyr 2015). Online retailers lag behind in battle against underage drinking. Drinks Retailing News, ar-lein. https://drinksretailingnews.co.uk/news/fullstory.php/aid/15326/Online_retailers_lag_behind_in_battle_against_underage_drinking.html

28. Serve Legal (12 Mehefin 2019). ). On-trade compliance in mystery shopper age checks falls despite rise in audit volumes. Datganiad i'r wasg gan Serve Legal.

29. Llywodraeth y DU (2003). Deddf Trwyddedu 2003, a4 (1)(d).

30. Swyddfa Gartref y DU (8 Mai 2015). Policy Paper: 2010 to 2015 government policy: alcohol sales. https://www.gov.uk/government/publications/2010-to-2015-government-policy-alcohol-sales/2010-to-2015-government-policy-alcohol-sales

31. Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2003). Deddf Trwyddedu 2003, a151 (6)(a).

32. Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2003). Deddf Trwyddedu 2003, a190 (2).

33. Swyddfa Gartref y DU (Ebrill 2017). Revised Guidance issued under section 182 of the Licensing Act 2003, s10.50. Cyhoeddiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

34. Llywodraeth yr Alban (2005). Deddf Trwyddedu (Yr Alban) 2005.

35. Cynulliad Gogledd Iwerddon (2021). Deddf Trwyddedu a Chofrestru Clybiau (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2021, a16(b)(ii).

36. Daily Mail (1 Gorffennaf 2013). Children beat drinking laws by buying online from supermarkets who don't check ages at the doorstep. Daily Mail, ar-lein. https://www.dailymail.co.uk/news/article-2352611/Children-beat-drinking-laws-buying-online-supermarkets-don-t-check-ages-doorstep.html

37. https://www.cogentresearch.co.uk/ Adroddiad ar gael ar gais gan Alcohol Change UK.

38. https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/17/section/141

39. Nicholls, J. (2014). One too many? Sales to drunk customers: policy, enforcement and responsibility. Llundain, Alcohol Research UK.

40. Arolwg gan OnePoll. Canlyniadau llawn ar gael gan Alcohol Change UK ar gais.

41. VicHealth (Mehefin 2020). On-demand alcohol delivery services and risky drinking. https://www.vichealth.vic.gov.au/media-and-resources/publications/alcohol-delivery-risky-drinking

42. Cynghrair Ryngwladol ar gyfer Yfed Cyfrifol (2021). Global standards for online alcohol sale and delivery. IARD, ar-lein. https://cms.iard.org/IARD/media/Documents/25052021-Global-standards-for-online-alcohol-sale-and-delivery.pdf

43. http://rasg.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/210524_OnlineSalesGuide.pdf

44. Hawkes, N. (26 Mawrth 2015). Industry's pledges to limit harms of alcohol are unlikely to work, research finds. BMJ, https://www.bmj.com/content/350/bmj.h1671

45. https://www.gov.uk/government/publications/age-verification-technology-in-alcohol-sales-regulatory-sandbox/call-for-proposals

46. Farrell, S. (27 Ionawr 2022). Five major supermarkets trialling 'digital age verification' for alcohol sales. The Grocer, ar-lein. https://www.thegrocer.co.uk/technology-and-supply-chain/five-major-supermarkets-trialling-digital-age-verification-for-alcohol-sales/663920.article

47. https://www.hipbar.com/about

48. Asda (10 Awst 2021). Asda rolls out one-hour Express Delivery service to more stores. Asda, ar-lein. https://corporate.asda.com/newsroom/2021/10/08/asda-rolls-out-one-hour-express-delivery-service-to-more-stores

49. https://www.amazon.co.uk/gp/help/customer/display.html?nodeId=202071950

50. https://groceries.asda.com/terms-and-conditions

51. https://help.beelivery.com/can-i-order-alcohol-or-cigarettes-HkdaHoDE_

52. https://www.beerhawk.co.uk/terms-and-conditions

53. https://www.beerhawk.co.uk/delivery

54. https://www.brewdog.com/uk/customer-services/terms-and-conditions

55. https://www.coop.co.uk/terms/delivery-click-and-collect-and-home-delivery-terms-and-conditions#one

56. https://deliveroo.co.uk/legal

57. https://www.fancyapp.live/terms

58. https://getir.uk/faq.html

59. https://cdn.sanity.io/files/iuu3qva9/production/f73f20a6bf963a5babbc5fae2f40769f53ffe160.pdf

60. https://gopuff.com/go/terms-and-conditions-uk

61. https://honestbrew.co.uk/terms-conditions/

62. https://jiffygrocery.co.uk/terms

63. https://www.just-eat.co.uk/info/terms-and-conditions

64. https://groceries.morrisons.com/webshop/scontent/termsAndConditions

65. https://www.nakedwines.com/terms

66. https://www.nakedwines.com/help#delivery

67. https://www.ocado.com/webshop/scontent/purchasetermsandconditions

68. https://help.sainsburys.co.uk/help/terms-and-conditions/buying-online

69. https://www.tesco.com/help/terms-and-conditions/grocery/

70. https://www.uber.com/legal/en/document/?name=general-terms-of-use&country=great-britain&lang=en-gb

71. https://www.virginwines.co.uk/terms-and-conditions

72. https://www.waitrose.com/content/waitrose/en/corporate_information_home/corporate_information/legal_notices/terms_and_conditions.html

73. https://tryzapp.com/terms-conditions



## Awdur yr adroddiad



Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar ran Alcohol Change UK gan Mark Leyshon, Uwch-Reolwr Ymchwil a Pholisi'r elusen. Ymunodd Mark ag elusen ragflaenol Alcohol Change UK, Alcohol Concern, yn 2009. Mae ei waith yn cynnwys cychwyn prosiectau ymchwil a'u rheoli, rheoli grantiau ymchwil Alcohol Change UK, a dylanwadu ar bolisïau alcohol ar sail tystiolaeth gadarn. Bu'n awdur amrywiaeth o adroddiadau a phapurau gwybodaeth sydd i'w cael ar wefan Alcohol Change UK.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn gan Alcohol Change UK yng Nghymru ym mis Mawrth 2022
8 Museum Place, Caerdydd CF10 3BG
www.alcoholchange.org.uk
@ACCymru and @AlcoholChangeUK

Alcohol Change UK yw enw gweithredol Alcohol Research UK. Swyddfa gofrestredig 27 Swinton Street, Llundain WC1X 9NW.
Elusen gofrestredig rhif 1140287. Cwmni cyfyngedig trwy warant yng Nghymru a Lloegr rhif 7462605. ©2022 Alcohol Change UK